

Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleihafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd

Adroddiad interim

Contents

Rhagair gan y gweinidog	2
Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd-Adroddiad Interim	3
1. Cefndir	3
2. Cwmpas yr Adroddiad Cychwynnol	4
3. Cyflwyniad	4
4. Methodoleg	6
5. Canfyddiadau Cychwynnol yr Adolygiad o adnoddau presennol	8
6. Rhwystrau ac Ysgogiadau	13
7. Crynodeb a Chasgliadau	16
Argymhellion	18
Atodiad A	20
Atodiad B	21

Rhagair gan y gweinidog

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Athro Charlotte Williams OBE am gadeirio'r Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd, ac i'w holl aelodau am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r maes pwysig hwn.

Mae ein cwricwlwm newydd yn gyfle sylweddol i gynyddu a gwella'r addysgu am hanes a hanesion ein cenedl, fel bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu cyfoethog am ein hanesion, ein daearyddiaeth a'n diwylliannau cyffredin. Bydd dysgwyr o bob oed yn dod i gysylltiad ag ystod o gyfnodau hanesyddol ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae'n bwysig iawn bod ein cwricwlwm newydd yn adlewyrchu gwir amrywiaeth ein poblogaeth a bod dysgwyr yn deall sut mae'r amrywiaeth hon wedi helpu i lunio cymdeithas gyfoes. Pan fydd y cwricwlwm newydd ar waith yn 2022 rwyf am sicrhau y bydd ystod eang o adnoddau i athrawon eu defnyddio ar gyfer y meysydd pwysig hyn o'n hanes yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r Gweithgor wedi rhoi cyngor amhrisiadwy ar sut y gellir nodi, datblygu a chategoreiddio adnoddau, deunyddiau a dysgu proffesiynol. Bydd y gwaith hwn yn helpu'r Llywodraeth, disgyblion, athrawon a'r sector cyfan, ar draws y cwricwlwm newydd.

Mae'r adroddiad interim hwn yn galw ar ysgolion i ymgysylltu mwy â'u cymunedau lleol. Bydd ysgolion yn cael cymorth i ymgysylltu â gweithwyr treftadaeth proffesiynol, amgueddfeydd ac orielau, yn ogystal ag arweinwyr cymunedol a diwylliannol wrth gynllunio eu cwricwlwm, er mwyn cyfoethogi dysgu a phrofiadau pob dysgwr. Felly, o fewn y paramedrau a nodir yn y canllawiau, bydd gan athrawon yr hyblygrwydd i deilwra cynnwys gwersi er mwyn galluogi dysgwyr i archwilio eu Cynefin eu hunain.

Credwn mai dyma'r ffordd orau iddynt ddeall sut y mae eu hunaniaeth, eu tirweddau a'u hanesion lleol yn cysylltu â'r rhai ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

Edrychaf ymlaen at adroddiad Estyn ar eu hadolygiad o addysgu hanes ac amrywiaeth Cymru mewn ysgolion y flwyddyn nesaf. Bydd ei ganfyddiadau yn ein helpu ymhellach i gomisiynu adnoddau i sicrhau bod athrawon yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Edrychaf ymlaen hefyd at gael yr adroddiad terfynol gan y Gweithgor yng ngwanwyn 2020, a fydd yn cwmpasu dysgu a datblygu proffesiynol, ac a fydd yn ein helpu i adeiladu ar ein sylfeini dysgu proffesiynol cryf wrth inni symud yn nes at 2022 pan fydd y cwricwlwm newydd ar waith.

Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd-Adroddiad Interim

1. Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2020 penodwyd Gweithgor gan y Gweinidog Addysg i gynghori ar addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws pob rhan o'r cwricwlwm ysgol ac ar wella'r ffordd y maent yn cael eu haddysgu.

Prif amcanion y Gweithgor yw cwblhau adolygiad o'r adnoddau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, eu cyfraniadau a'u profiadau, ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, a chynghori ar gomisiynu adnoddau dysgu newydd yn y meysydd hyn, gan bwysu ar gyngor arbenigwyr a grwpiau sydd eisoes ar gael. Bydd y grŵp hefyd yn adolygu cyfleoedd ac adnoddau ar gyfer dysgu proffesiynol cysylltiedig.

Mae'r Gweithgor yn cynnwys aelodau annibynnol, sy'n ymarferwyr profiadol ac yn gyfranwyr i hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac i hanes Cymru, dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams OBE a fe'u cefnogir gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae manylion yr aelodau i gyd wedi'u hatodi i'r [Cylch Gorchwyl](#).

Dylid gosod gwaith y Grŵp yng nghyd-destun nifer o fentrau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a benodwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2020 dan gadeiryddiaeth Gaynor Legall, i gynnal archwiliad o henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac adeiladau sy'n gysylltiedig ag agweddau ar hanes Pobl Dduon Cymru, yn enwedig y fasnach gaethwasiaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig ond hefyd yn cyffwrdd â'r cyfraniadau hanesyddol a wnaed gan bobl o dras ddu i fywyd yng Nghymru.

Mae'r Gweithgor wedi cyfrannu at adolygiad tystiolaeth addysg Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sy'n sail i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae aelod o'r Grŵp wedi gwirfoddoli i gynrychioli'r Gweithgor ar Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys dau Arolygydd Estyn fel arsylwyr i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agos ag adolygiad presennol Estyn o hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo a disgwylir i'r adroddiad arno gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021. Bydd yn asesu sut mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd.

2. Cwmpas yr Adroddiad Cychwynnol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys casgliadau ac argymhellion cychwynnol y grŵp ynghylch adnoddau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau, cyfraniadau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.

Cydnabyddir bod rhagor o waith i'w wneud i baratoi a chefnogi athrawon i fodloni disgwyliadau wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm a hefyd wrth arfer eu haddysgeg. Dyma fydd testun ail gam gwaith y Gweithgor a'i adroddiad nesaf.

3. Cyflwyniad

Mae Cymru'n gymdeithas amlddiwylliannol, ac aml-ethnig. Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion¹ yn nodi bod 12% o'r holl ddisgyblion pump oed a throsodd yn 2019 yn dod o gefndir lleiafrif ethnig. Mae amrywiaeth rhanbarthol sylweddol yng nghanran y disgyblion yng Nghymru sy'n nodi eu bod o gefndir lleiafrif ethnig, o 34.4% yn ysgolion Caerdydd i ddim ond 4.1% yn Ynys Môn ond er gwaethaf yr amrywio rhanbarthol hwn, gellir gweld amrywiaeth ethnig ym mhob rhan o Gymru.

Amcanion y Grŵp yw cyfrannu at ddiben allweddol y Cwricwlwm i Gymru i hyrwyddo '*dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd*' drwy sicrhau bod adnoddau ystyrion ar gael i gefnogi addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion, ac annog athrawon ac ysgolion i gynnwys natur aml-ethnig Cymru ym mhob arfer addysgeg, gan adlewyrchu felly uchelgais y Cwricwlwm i Gymru bod '*pob ymarferydd yn ailystyried yr hyn y mae am ei ddysgu, ei dulliau addysgu a'r hyn rydym am i bobl ifanc ddatblygu i fod ac i ddysgu amdano*'.

Mae nifer o resymau da iawn dros ymgysylltu â'r amcan hwn. Dylai pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir, gael cyfle i archwilio profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, yn y gorffennol a'r presennol. Dylai dysgwyr o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd ddisgwyl cael profiad dysgu cadarnhaol a chyfoethog.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn sefydlu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector

¹ Nodir y caveat canlynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ym mis Hydref 2020: "Er bod y rhan fwyaf o'r prosesau arferol dilysu data'r cyfrifiad Ysgolion 2020 wedi digwydd, oherwydd y pandemig y coronafeirws, nid yw'r data wedi mynd trwy'r broses ddilysu derfynol arferol. Fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru, dychwelir y data fel arfer i awdurdodau lleol i'w ddilysu'n derfynol. Fel arfer, ni fydd niferoedd cyffredinol y disgyblion ac athrawon yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r newid mwyaf tebygol yn nodweddion y disgyblion eu hunain. Felly dylai defnyddwyr fod yn fwy gofalus wrth gymharu data ar nodweddion disgyblion a staff dros amser, yn enwedig gyda charfannau bach."

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andover-by-localauthorityregion-ethnicity>

Cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae cydymffurfio hefyd yn gwneud synnwyr addysgol da. Mae'n ofynnol i ysgolion gyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i nodi sut y byddant yn gweithredu ar y ddyletswydd hon. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion *hybu* cydraddoldeb yn hytrach na lliniaru hiliaeth a gwahaniaethu yn unig. Felly, mae'r ddyletswydd statudol hon yn sail i'r holl addysgu a dysgu a ddarperir yn yr ysgol, yn ogystal ag i ethos a diwylliant yr ysgol.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Mae'n darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae hefyd yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu polisïau cenedlaethol ac yn meithrin y gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ogystal ag arolygu, mae Estyn yn cynghori ac yn arwain Llywodraeth Cymru ar ansawdd a safonau. Comisiynir ei adroddiadau thematig gan y Gweinidog Addysg.

Mae deddfwriaeth yn nodi pwerau Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys yr hyn y caiff Estyn ei arolygu ac adrodd arno neu y mae'n rhaid i Estyn ei arolygu ac adrodd arno.

Pan fydd Estyn yn arolygu profiadau addysgu a dysgu darparwr, mae arolygwyr yn ystyried *'y ffyrdd y mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol yn llwyr, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol.'*

O 2022, bydd [Cwricwlwm newydd i Gymru](#). Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru mae'r pedwar diben, sy'n cynnwys y dylai dysgwyr ddatblygu fel "*dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd*", sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd nawr ac yn y gorffennol, ac yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r Fframwaith yw ei bod yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm² a'u trefniadau asesu eu hunain. Ynddo'i hunan, nid yw'n rhaglen barod 'oddi ar y silff' i'w chyflwyno. Mae'r dull newydd hwn yn cydnabod mai ysgolion ac ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau o fewn y fframwaith cenedlaethol i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion eu dysgwyr penodol nhw, gan gynnwys dewis y pynciau a gweithgareddau a fydd yn cefnogi eu dysgu orau. Fel rhan o'r fframwaith cenedlaethol hwn, mae'r canllawiau themâu³ trawsgwricwlaidd yn egluro nad yw Cymru, fel unrhyw gymdeithas arall, yn endid unffurf, ond yn hytrach mae'n cwmpasu amrywiaeth o werthoedd, safbwyntiau, diwylliannau a hanes sy'n cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru. Mae'n mynd ymlaen i ddatgan y dylai

² Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio eich Cwricwlwm <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

³ Cwricwlwm i Gymru: Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/>

ymarferwyr, wrth gynllunio cwricwlwm, ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddathlu cefndiroedd a gwerthoedd amrywiol ac i hybu dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru. Wrth gyfeirio at y Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Dyniaethau⁴:

“Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, ieithyddol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maen nhw hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno ac ymateb i newidiadau, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Gall dysgwyr archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang. Gall ymwneud pellach eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.”

Felly, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ysgolion archwilio gwahanol agweddau ar brofiadau a chyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig drwy'r cwricwlwm cyfan. Dylai cyd-gynhyrchu a chydweithredu rhwng ysgolion, rhieni, sefydliadau anllywodraethol cyhoeddus a pherthnasol fod yn brif ffocws y gwaith hwn.

Ar yr un pryd, heb restr lawn o bynciau rhagnodedig yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, a gan fod modd i ysgolion lunio eu cwricwla eu hunain o fewn fframwaith cenedlaethol, mae perygl i'r themâu hyn barhau i gael eu hanwybyddu neu eu gwthio i'r cyrion. Er y bydd dysgu am amrywiaeth, hunaniaeth a pherthyn, cyfiawnder a chydraddoldeb, hawliau a gweithredu cymdeithasol yn orfodol yng nghwricwla ysgolion, nid oes unrhyw ofyniad statudol i addysgu testunau penodol ynghylch hanes hiliaeth ac amrywiaeth, er enghraifft hanes caethwasiaeth neu'r Holocaust. Mae hyn yn achos pryder. Mae'r Gweithgor wedi seilio'r adroddiad hwn o fewn paramedrau'r cwricwlwm newydd, gan gydnabod nad yw'n cael ei arwain gan y cynnwys, ond mae'n pwysleisio y dylai cwricwla da adlewyrchu'r themau hyn. Mae'r adroddiad felly yn edrych ar y ffordd y gellid cyflawni hyn heb ragnodi cynnwys, gan nad yw'r Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu hynny. Mae'r mandad statudol, moesol, demograffaid a disgyblaethol yn glir, bydd darpariaeth addysg o ansawdd da yn cynnwys rhoi sylw i'r safbwyntiau, profiadau a chyfraniadau hyn. Bydd angen datblygu sgiliau ymarferwyr addysgu er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, a rhoi'r cymorth a'r arweiniad angenrheidiol iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi.

4. Methodoleg

Mae'r Grŵp wedi chwilio am wybodaeth o sawl maes er mwyn cynnal adolygiad cychwynnol o'r adnoddau sydd ar gael. Gan weithio o fewn cyfyngiadau'r amserlen, roedd methodoleg y grŵp fel a ganlyn;

⁴Cwricwlwm i Gymru, Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig: y Dyniaethau

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

- Adolygwyd deunyddiau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar Hwb, ystorfa Adnoddau Llywodraeth Cymru, o ran cynnwys a'u hygyrchedd i athrawon.
- Adolygwyd archwiliad Cymdeithas Ddysgedig Cymru o'r adnoddau dysgu sydd ar gael i gefnogi addysgu dimensiynau Cymraeg a rhyngwladol o fewn Cwricwlwm Cymru.
- Galwodd y Grŵp am enghreifftiau o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio, ac maent wedi adolygu nifer o adnoddau nad ydynt ar gael ar Hyn o bryd ar Hwb, megis dolenni gwe, vlogs, erthyglau, llyfrau, ffilmiau, clipiau fideo a phrosiectau ymchwil.
- Ystyriodd y Grŵp adroddiadau mawr ledled y DU ar addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, fel y rhai a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Runnymede, y Gymdeithas Hanes a Black Curriculum UK.
- Cafodd enghreifftiau o waith a wnaed gan gyrff fel y Gymdeithas Frenhinol i wella amrywiaeth o fewn STEM yn y DU eu hystyried gan y Grŵp.
- Mae'r Cadeirydd wedi cynnal cyfarfodydd defnyddiol a diddorol gyda nifer o randdeiliaid a phartïon â buddiant. Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau y mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â hwy yn Atodiad A.
- Penderfynodd y Grŵp y dylid cynnal grwpiau ffocws gyda phobl ifanc ac athrawon o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i fanteisio ar eu profiadau a gofyn pa newidiadau yr hoffent eu gweld.
- Fe wnaeth y grŵp dderbyn a chyfrannu at ddogfennau manwl sy'n sail i Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth ynghylch Cydraddoldeb Hiliol mewn perthynas ag Addysg, a gasglwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda phobl ifanc o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac o wahanol oedrannau ar 15 Hydref, a drefnwyd gan aelod o'r Grŵp ac a gynhaliwyd gan y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuentid⁵. Rhannodd y bobl ifanc straeon agored a gonest o'u profiadau ac, mewn rhai achosion, yr effaith a gafodd y profiadau hynny yn ddiweddarach ar eu bywydau yn yr ysgol ac ar ôl gorffen yn yr ysgol. Ymhlith y themâu allweddol a gododd roedd diffyg modelau rôl amlwg o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu haddysg, teimlad bod elfennau o hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu haddysgu er mwyn 'ticio blychau' yn unig ac nad oedd eu hathrawon bob amser yn eu deall, ac ymdeimlad cyffredinol bod diffyg cynrychiolaeth gyffredinol o bresenoldeb Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion ac mewn addysgu. Mewn rhai sefyllfaoedd roedd hyn wedi arwain at brofiad negyddol yn yr ysgol

⁵ Sefydlwyd y Tim Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuentid (EYST) yn 2005 gan grŵp o bobl ifanc o gefndir lleiafrif ethnig yn Abertawe. Y nod oedd llenwi bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig 11-25 oed drwy ddarparu cymorth penodol, diwylliannol sensitif i ddiwallu eu hanghenion. Ers hynny, mae EYST wedi ehangu ei genhadaeth a'i weledigaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc a theuluoedd duon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. <http://eyst.org.uk/>

ac mewn eraill nid oedd wedi cael ei gydnabod fel problem. Gall dysgu am ddiwyddiadau negyddol mewn hanes yn unig arwain at ymdeimlad negyddol ymhlith dysgwyr at eu hunain. Mae canlyniadau'r grwpiau ffocws yn cyfeirio at natur ymylol y themâu hyn yn y cwricwlwm presennol ac at effaith y diffyg hwn ar bob dysgwr. Bydd addysgu'r holl bobl ifanc ar yr hanesion a'r diwylliannau amrywiol yn cael effaith gadarnhaol i bawb ac nid dim ond y disgyblion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd yn gweithio tuag at ddileu hiliaeth ac anwybodaeth ac yn addysgu pawb yn amrywiaeth gyfoethog Cymru gan greu cenhedlaeth fwy parchus a gwybodus yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Estyn yn gweithio ar adroddiad thematig ar hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru mewn ysgolion. Bydd yr adroddiad yn asesu'r ffordd y mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, ac yn ystyried os yw'r ddarpariaeth hanes mewn ysgolion yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru a'r byd. Fel rhan o'u gwaith o gasglu tystiolaeth, bydd arolygwyr yn trafod â disgyblion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn amrywiaeth o ysgolion o bob rhan o Gymru. Bydd barn y disgyblion hyn yn rhan o sylfaen dystiolaeth yr adroddiad.

I nodi dechrau Mis Hanes Pobl Dduon ar 1 Hydref 2020 (a elwir bellach yn Hanes Pobl Dduon 365), cyhoeddodd y Grŵp [Ddatganiad o Weledigaeth a Thaflen Sbarduno Athrawon](#):

- Mae'r Datganiad o Weledigaeth yn amlinellu nodau'r grŵp ar gyfer dysgwyr, fel 'dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd', ac ar gyfer athrawon, wrth gynllunio eu cwricwlwm.
- Bwriad y Daflen Sbarduno Athrawon yw annog athrawon i ystyried cwestiynau fel pa enghreifftiau o unigolion a grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n rhan o'r hyn a gynnigir gan eu cwricwlwm ar hyn o bryd, a sut y gallant ysgogi dysgwyr i gynrychioli ac archwilio eu treftadaeth eu hunain a rhoi'r deunydd hwn ar waith yn eu dysgu.
- Mae'r Grŵp wrthi'n datblygu ffeithlun i gynrychioli'r amrywiaeth yng ngweithlu addysg Cymru, yn seiliedig ar ystadegau yn adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg 2020.

5. Canfyddiadau Cychwynnol yr Adolygiad o adnoddau presennol

Y Cwricwlwm Presennol

Er bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn rhagnodi i raddau, mae gan ysgolion gryn ryddid i ddewis yr union gynnwys y maent yn ei addysgu. Nid yw'r grŵp wedi gweld unrhyw dystiolaeth glir ynghylch i ba raddau y mae cwricwla presennol ysgolion yn mynd i'r afael â hil ac amrywiaeth (nac yn wir unrhyw fater neu thema benodol arall) o fewn hanes nac unrhyw bwnc arall.

Nid yw'r grŵp wedi gweld unrhyw dystiolaeth o waith trawsbynciol neu waith rhyngddisgyblaethol hyd yma.

Adnoddau presennol

Yn ystod y cam hwn o'r gwaith, canolbwyntiodd y Grŵp ar yr adnoddau sydd ar gael ar Hwb, cronfa ddata Llywodraeth Cymru o adnoddau addysgu. Mae bylchau mawr yn yr adnoddau sydd ar gael sy'n cefnogi addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm. Dim ond un ar ddeg o adnoddau a nodwyd oedd yn canolbwyntio ar hanes pobl dduon, ac mae'r Grŵp o'r farn bod y rhan fwyaf o'r rhain yn hen ffasiwn, heb ddigon o ddeunydd ategol i athrawon, ac nad ydynt yn berthnasol iawn i Gymru (sy'n arbennig o bwysig yn sgil pwyslais y cwricwlwm newydd ar *gynefin*⁶). Roedd y diffyg adnoddau ym meysydd Iechyd a Lles, Mathemateg a Rhifedd, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn peri pryder arbennig i'r Grŵp.

Mae'r Grŵp hefyd yn pryderu am ansawdd y cyfieithiadau o adnoddau i'r Gymraeg. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y cyfieithiadau'n wan o bryd i'w gilydd, a'i bod yn anodd eu defnyddio gyda disgyblion. Ni roddir digon o sylw i sicrhau bod y deunyddiau, ar ôl eu cyfieithu, yn addas ar gyfer oedrannau darllen disgyblion. Yn rhy aml, mae angen i athrawon symleiddio ac addasu deunyddiau ymhellach. Er hynny, weithiau mae athrawon yn defnyddio deunyddiau ffynhonnell sylfaenol yn yr iaith wreiddiol, er enghraifft cyflwynir tystiolaeth llaw gyntaf a deunyddiau, adnoddau a thasgau ategol yn Gymraeg. Dylai ymarferwyr wirio deunyddiau wedi'u cyfieithu er mwyn sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn werth chweil.

Mae'n amlwg o'r adolygiad cychwynnol o adnoddau bod angen newid y naratif ynghylch addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r adnoddau presennol yn canolbwyntio'n anghymesur ar gaethwasiaeth, gwladychu a'r Ymerodraeth. Mae angen cydbwyso hyn ag adnoddau sy'n canolbwyntio ar hanes ehangach cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac ar gyfraniadau cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn cymdeithas gyfoes.

Fel y mae ymchwil yn Lloegr wedi dangos, gall addysgu hanes pobl dduon fel hanes hiliaeth yn unig arwain at weld disgyblion duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn datblygu ymdeimlad negyddol ohonynt eu hunain⁷. Gallai hanes mudo annog pobl i weld pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel estroniaid sydd wedi symud i Gymru o fannau eraill yn hytrach na rhan annatod o gymdeithas Cymru.

⁶ Dyma'r diffiniad o 'cynefin' ar wefan Llywodraeth Cymru: Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno.

⁷ K. Traille, 'You should be proud about your history. They made me feel ashamed': teaching history hurts', *Teaching History*, 127 (2007), 31-37.

Er mai Hwb yw'r ystorfa sylfaenol ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu i ysgolion yng Nghymru, nid dyma'r unig ffynhonnell sydd ar gael. Mae athrawon yng Nghymru yn chwilio am adnoddau ar wefannau fel [Tes.com](https://www.tes.com) ac mae ganddynt fynediad at ganolfannau rhanbarthol sy'n darparu deunyddiau⁸ Fodd bynnag, gan nad oes dull systematig na chydlynol o ymdrin â'r lluo o adnoddau sydd ar gael ar Hwb ac mewn mannau eraill, gall fod yn anodd iawn i athrawon drafod yr adnoddau a nodi'r rhai a fyddai o ddefnydd iddynt. Roedd y Gweithgor hefyd yn siomedig â'r diffyg deunyddiau a gynhyrchwyd gan ysgolion ar y cyd â sefydliadau ethnig, ar lefel leol neu genedlaethol, ac roeddent yn teimlo y gellid gwneud mwy.

Mae'r Grŵp yn cydnabod yr anawsterau a wynebir gan ymarferwyr addysgu wrth ddod o hyd i adnoddau o ansawdd da i gefnogi addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm. O ystyried faint o adnoddau a deunyddiau sydd ar gael, mae'r Grŵp yn cynnig gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllaw adnoddau rhagarweiniol ar gyfer ymarferwyr addysgu, sy'n rhestru ac yn gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm. Dylai'r canllaw adnoddau gynnwys deunydd sydd ar gael ar Hwb a thu hwnt, a dylai gyfeirio at adnoddau gan sefydliadau cenedlaethol allweddol, grwpiau addysg, a ffynonellau eraill yng Nghymru a'r byd ehangach.

Dim ond yn Saesneg y bydd llawer o'r adnoddau hyn ar gael, yn enwedig adnoddau sylfaenol a'r rhai a ddatblygwyd y tu allan i Gymru, ac mae'r Grŵp yn deall nad yw hyn yn ddelfrydol. Fodd bynnag, un ffordd effeithiol o gynyddu argaeledd adnoddau dwyieithog o ansawdd da mewn cyfnod byr o amser fyddai nodi adnoddau uniaith addas, ac yna gweithio gyda'r awduron i gyfieithu'r deunydd. Yna dylai fod yn bosibl rhoi'r adnoddau ar Hwb.

Adolygiad Adnoddau y Gymdeithas Ddysgedig

Cynhaliodd y Grŵp adolygiad o'r ymarfer mapio a wnaed gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru i nodi'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dimensiynau Cymreig a Rhyngwladol y Cwricwlwm newydd i Gymru. Nid oedd yr adnoddau hyn yn cynnwys y rhai sydd ar Hwb.

Daeth adroddiad y Gymdeithas Ddysgedig i'r casgliad bod gan hanes fwy o adnoddau na meysydd eraill o Faes Dysgu a Phrofiad y dyniaethau. Fodd bynnag, dangosodd fod llawer o'r adnoddau'n lleol eu natur ac nad ydynt wedi'u lanlwytho i Hwb. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen ailystyried ac ail-deilwra adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Felly nid yw'r ffaith bod adnoddau'n bodoli bob amser yn ateb ynddo'i hun i hyrwyddo gwahanol fathau o hanes.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi nad oes fawr ddim deunydd addysgol penodol i gefnogi hanes menywod, hanes LGBTQIA, neu hanes Cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a bod

⁸ Ein Rhanbarth ar Waith: <https://porth.erw-rhwyd.cymru/repository>

cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu tangynrychioli mewn adnoddau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

O fewn amserlen yr adroddiad cychwynnol hwn, ni lwyddodd y Grŵp i ymchwilio i bob adnodd a fapiwyd gan y Gymdeithas Ddysgedig, felly mae'n amhosibl gwybod yn union sut mae unigolion a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli yn yr adnoddau. Efallai bod gan rai o'r adnoddau ddeunyddiau sylweddol am gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ond nad yw hyn yn amlwg o'r teitl neu ddisgrifiad. Fodd bynnag, o'r 363 o adnoddau hanes a gafodd eu mapio, dim ond dau sy'n ymddangos eu bod yn benodol am unigolion a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, er bod y ddau ar gael yn ddwyieithog gan ddod â'r cyfanswm i bedwar.⁹

Hwb

Hwb yw ystorfa Llywodraeth Cymru o adnoddau ysgol ac o ganlyniad mae'n un o'r prif ffynonellau ar gyfer deunyddiau dysgu yng Nghymru. Mae'r holl adnoddau sydd i'w cael ar Hwb yn ddwyieithog.

Gan fod Hwb yn dibynnu ar yr hyn y mae ysgolion, athrawon ac eraill yn ei gyflwyno iddo, mae'r cynnwys yn eclectig, ac nid oes trefn systematig neu gyson i'r adnoddau, yn arbennig o ran y dyniaethau a'r celfyddydau. Ymysg yr adnoddau ar Hwb mae papurau ymchwil academiaidd, adnoddau hanes lleol, llenyddiaeth, ac adnoddau addysgu a hyfforddi. Nid yw'r holl adnoddau yn cynnwys canllawiau i athrawon ynghylch sut y gellid eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ac mae rhai yn ddogfennau hanesyddol yn eu hanfod yn hytrach nag adnoddau addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn helpu i addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn perthynas â'r Dyniaethau ac Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu. Wrth i'r Grŵp edrych i ddechrau ar Hwb, nodwyd un ar ddeg o adnoddau sy'n uniongyrchol berthnasol i addysgu'r themâu yn ymwneud â hanes Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r adnoddau hyn wedi'u rhestru yn Atodiad B.

Cododd y Grŵp bryder penodol am y diffyg adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym meysydd pynciau Iechyd a Lles, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'n bwysig iawn sicrhau nad yw cyfraniad Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei gyfyngu i'r Dyniaethau a'r Celfyddydau yn unig, ond eu bod yn cael eu hadlewyrchu ledled y cwricwlwm. Mae perygl i themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael eu gwthio i'r cyrion os nad ydynt yn cael eu trafod fel rhan o'r cwricwlwm ehangach.

⁹ Nid yw'r ffigur 363 yn adlewyrchiad o'r adnoddau hanes sydd ar gael mewn gwirionedd gan ei fod yn cyfri'r adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ddwyieithog.

Ni ddilynwyd unrhyw drefn systematig neu gyson o drefnu'r adnoddau ar Hwb. Canfu'r Grŵp fod y wefan yn annealladwy ac yn anodd ei thrin, ac nad oedd yr adnoddau wedi'u tagio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu iddynt gael eu hadnabod yn rhwydd drwy chwilio am hanes pobl dduon neu dermau tebyg. Fodd bynnag, efallai y gellid datrys hyn yn syml drwy wella dosbarthiad a chategoreiddiad adnoddau ar Hwb.

Teimlwyd y gellid gwneud mwy i fonitro cynnwys yr adnoddau sydd ar Hwb, sydd bellach yn cynnwys adnoddau ynghylch Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd yn hen ffasiwn, o ansawdd amrywiol, a heb eu gosod o fewn cyd-destun hanes a datblygiad Cymru. Er enghraifft, nid yw'r eitemau ar y mudiad hawliau dynol yn UDA a ffigurau allweddol fel Martin Luther King yn cael eu cysylltu â datblygiadau yng Nghymru. Nid oes unrhyw beth yn cynnig fframwaith cyffredinol neu gronoleg hanes a datblygiad amrywiaeth a hil yng Nghymru, cydnabod hanes Cymru o fudo, datblygiad diwydiannol na'i rhan mewn gwladychu ac imperialaeth. Nid oes chwaith amrywiaeth eang o adnoddau yn canolbwyntio ar y Gymru gyfoes.

Mae'r materion sy'n codi yn sgil nifer cyfyngedig yr adnoddau i gefnogi addysgu am brofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu gwaethygu gan eu ffocws. Mae'r adnoddau ar Hwb yn dueddol o fod am unigolion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel mewnfudwyr neu bobl sy'n dioddef hiliaeth. Fel y trafodwyd uchod, gallai dysgu hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel hanes hiliaeth yn unig arwain at deimladau negyddol ymysg dysgwyr at eu hunain. Mae'r Grŵp yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol datblygu canllaw, yn dangos sut i adeiladu adnoddau a deunyddiau i'w cynnwys ar Hwb.

Hwb Deunydd tu hwnt i Hwb

Mae'r Grŵp hefyd wedi adolygu adnoddau ehangach sydd ar gael i ategu'r addysgu ar themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, nad ydynt ar gael ar Hwb ar hyn o bryd.

Pennwyd nifer o adnoddau nad oeddent yn benodol i Gymru fel rhai a allai fod o ddefnydd i helpu i addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er y gallai'r adnoddau hyn fod yn gyson â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cysylltu Cymru â'r byd, efallai bod dysgwyr yn ei chael yn anodd cysylltu adnoddau sy'n canolbwyntio ar ddeunyddiau Prydeinig, Seisnig neu ryngwladol â Chymru neu'r gymuned leol, yn y cwricwlwm presennol ac wrth edrych tua'r dyfodol yn y Cwricwlwm i Gymru.

Tu hwnt i'r Dyniaethau, mae'r Grŵp wedi nodi deunyddiau Amrywiaeth a Gwyddoniaeth o ansawdd a gynhyrchwyd gan y [Gymdeithas Frenhinol](#). Mae'r [Academi Frenhinol Peirianeg](#) wedi cynhyrchu fideos o bobl go iawn yn gwneud swyddi gwyb mewn STEM y gall dysgwyr uniaethu â nhw a chael eu hysbrydoli. Mae nifer o'r rhai sy'n cael sylw yn y fideos yn dod o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae [Black Curriculum UK](#) yn Sefydliad Anllywodraethol sydd â phresenoldeb gweithgar a soffistigedig ar-lein wedi'i anelu at gefnogi gwaith athrawon ar draws y DU. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes: Hanes a'r Celfyddydau; Mudo; Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith; Tir a'r Amgylchedd. Gallai hyn ddarparu model ar gyfer trefnu a datblygu adnoddau yng Nghymru.

Roedd y Grŵp hefyd yn falch o weld bod Senedd y DU wedi sicrhau bod llyfr newydd [Prydeinwyr Du Dylanwadol](#) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. **Mae'r llyfr yn adnodd sylfaenol, yn rhannu straeon byr am ddynion a menywod duon ysbrydoledig yn hanes Senedd y DU ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon 2020.**

6. Rhwysrau ac Ysgogiadau

Mae'r her o sicrhau bod themâu a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynnwys ar draws y cwricwlwm yn gofyn am fwy na chreu a gwella cynnwys adnoddau addysgu a dysgu yn unig. Mae hefyd yn gofyn am hwyluso mynediad at adnoddau, newid meddylfryd ac arferion a darparu cymorth drwy enghreifftiau, awgrymiadau ac arweiniad. Bydd hefyd angen sefydlu dulliau o reoli'r ymdrech hon a sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Nid yw athrawon bob amser wedi'u harfogi'n ddigonol i fynd i'r afael â chwestiynau hil a hiliaeth yn eu haddysgu a'u dyletswyddau yn yr ystafell ddosbarth a neu gyfrifoldebau bugeiliol ehangach. Mae hyn yn gofyn am hyfforddiant a newid diwylliannol. Ni ellir datrys problem nes bod y broblem yn cael ei deall a'i chydnabod.

Mae adroddiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn nodi y derbynnir nad yw'r pwyslais gofynnol ar Gymru yn y cwricwlwm presennol wedi'i gyflawni er bod adnoddau hanes Cymru ar gael yn eang. Felly, mae'r Gymdeithas yn dadlau:

This highlights that there is insufficient flow-through of existing resources to schools themselves, and thus these resources are under-utilised. Teachers require more guidance about exploring the multiple narratives of Wales and its diverse contexts, and existing resources require appropriate curation. It is vital that teachers are provided with access to a directory of available resources, so that they develop their own engagement with the WDIP [Welsh Dimension and International Perspective] aspect of the new curriculum.

Mae hyn yn awgrymu na fydd creu adnoddau newydd yn ddigon i hyrwyddo hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd angen i athrawon wybod eu bod yno a chael arweiniad ynghylch eu defnyddio. Bydd y Grŵp yn ystyried dysgu a datblygiad proffesiynol yn y maes hwn, gan gynnwys addysg gychwynnol athrawon a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr addysgu sydd newydd gymhwyso a sefydledig yn adroddiad terfynol.

Efallai y bydd angen rhai awgrymiadau ac arweiniad perthnasol ar lywodraethwyr ac Arolygwyr ysgolion hefyd er mwyn sicrhau bod dysgu a datblygiad proffesiynol yn cael eu darparu'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Fodd bynnag, gall y mater fynd yn ddyfnach na mater hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Nid yw argaeledd cyfoeth o adnoddau hanes Cymru wedi creu pwyslais ar hanes Cymru o fewn y cwricwlwm presennol. Mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru yn 2013 ynghylch pam nad oedd hanes Cymru yn cael ei addysgu fwy, nodwyd ei bod yn bwysig i athrawon a disgyblion deimlo bod pwnc yn bwysig a'i fod o ddiddordeb¹⁰. Mae ymchwil yn Lloegr wedi dangos sut y gall athrawon osgoi addysgu'r hyn y maent yn ei ystyried yn bynciau anodd¹¹.

Efallai nad yw'r pwyslais ar Gynefin yng Nghwricwlwm newydd Cymru yn ddefnyddiol yma. Mae Cynefin yn annog edrych ar hanes o safbwynt lleol. Gall olygu, mewn rhannau o Gymru lle mae niferoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fach iawn, nad yw hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei ystyried yn rhan o'r amgylchedd lleol.

Felly, mae'n bwysig bod o leiaf rai adnoddau newydd yn mynd i'r afael â hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar lefel Cymru ac yn meddwl am sefyllfa unigolion a hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o genedl Cymru. Wrth wneud hyn, dylent nid yn unig fynd i'r afael â hanes mudo a hiliaeth ond hefyd y cyfraniadau cadarnhaol y mae unigolion a chymunedau wedi'u gwneud i'r genedl Gymreig a chymdeithas Cymru. Mae hyn yn golygu camu y tu hwnt i'r ardal leol a'i chysylltiadau ehangach i ganolbwyntio ar Gymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn teimlo bod hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn rhan o'u hanes cyfunol eu hunain.

Dylid cefnogi ac annog ymarferwyr i ddatblygu cwricwla sy'n rhoi sylw i themâu a safbwyntiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dyna'r ffordd o sicrhau cwricwlwm integredig sy'n mynd i'r afael yn sylweddol ag anghenion dysgwyr ac sy'n cynrychioli ehangder a dyfnder gwybodaeth am gyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Nid gwaith y Dyniaethau a'r Celfyddydau yn unig yw adlewyrchu cyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn y gorffennol a'r presennol, ac er bod y ffocws ar hanes yn bwysig, ni fydd hynny wrth ei hun yn arwain at integreiddio'r safbwyntiau hyn yn ddigonol ac mae perygl y bydd yn eu gadael ar gyrion y cwricwlwm newydd. Yn ogystal, mae sylw i'r themâu hyn ar draws yr ystod o Feysydd Dysgu a Phrofiad yn creu cyfleoedd ar gyfer prosiectau rhyngddisgyblaethol arloesol a dychmygus.

Fel y trafodwyd uchod, mae'r Grŵp wedi nodi'r diffyg adnoddau ar hyn o bryd i addysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg; Iechyd a Lles; a Mathemateg a Rhifedd. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar greu adnoddau newydd yn y meysydd pwysig hyn, ac rydym yn croesawu'r datblygiad hwn.

¹⁰ Y Cwricwlwm Gymreig, Hanes a Stori Cymru: Adroddiad terfynol (2013).

¹¹ Richard Harris, 'Purpose as a way of helping white trainee history teachers engage with diversity issues', *Education Sciences*, 2 (2012), 218-41.

Mae'r Grŵp wedi nodi gyda diddordeb waith parhaus i sicrhau mwy o amrywiaeth o fewn y gweithlu STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg).

Yn y cwricwlwm newydd, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn defnyddio disgyblaethau bioleg, cemeg, cyfrifiadureg, dylunio a thechnoleg a ffiseg. Mae datblygiadau yn y meysydd hyn bob amser wedi sbarduno newid mewn cymdeithas, yn sail i arloesedd ac yn effeithio ar fywydau pawb, yn sylweddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Yn yr un modd, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn hanfodol i ddatblygu gwydnwch mathemategol mewn dysgwyr. Mae'n thema drawsbynciol sy'n allweddol i ddatblygiad dysgwyr uchelgeisiol a galluog.

Gall astudio pynciau STEM arwain at yrfaedd STEM cyffrous mewn diwydiannau sy'n bwysig i hyfywedd a llwyddiant cenedl. Fodd bynnag, mae prinder sgiliau yn y sector STEM. Rhagwelir y bydd twf sylweddol erbyn 2021 yng nghyfran y swyddi STEM proffesiynol yn economi'r DU (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, 2016, t 73). Yn draddodiadol, gwelwyd tangynrychiolaeth o rai rhannau o gymdeithas, megis menywod a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn ogystal â bod yn ddymunol o ran cydraddoldeb, mae gweithlu amrywiol yn hanfodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bob dysgwr a diwallu anghenion economaidd Cymru.

Mae'r Bwrdd Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (WiSTEM) yn fforwm i lysgenhadon STEM ddod at ei gilydd i drafod materion a chynnydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn arwain at wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws cymuned STEM Cymru. Ffurfiwyd dau is-grŵp i hyrwyddo gweithgarwch uniongyrchol yn eu priod feysydd:

- Is-grŵp Diwydiant WiSTEM dan gadeiryddiaeth Susan Jones – Tata Steel
- Is-grŵp Addysg WiSTEM dan gadeiryddiaeth Dr Anita Shaw – Cyfarwyddwr Dysgu STEMpowered

Mae'r Athro Charlotte Williams wedi cyfarfod â Dr Shaw i edrych ar gyfleoedd i rannu nodau cyffredin rhwng y Gweithgor ac Is-grŵp Addysg WiSTEM.

Ym mis Mehefin 2020 ysgrifennodd Dr Anita Shaw at Jane Hutt, AS i dynnu sylw at y ffaith bod Bwrdd WiSTEM a'i is-grwpiau yn llwyfan perffaith i nodi a chroesawu'r newidiadau sydd eu hangen i gefnogi gwell canlyniadau addysgol i ferched o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ysgol a gwell cynrychiolaeth o fenywod o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn diwydiant STEM, y byd academiaidd ac mewn swyddi awdurdodol. Cynhaliwyd cyfarfod yr Is-grŵp Addysg ar 18 Medi 2020. Cytunodd yr aelodau i newid y Cylch Gorchwyl i:

'Galluogi Cymru i fod yn genedl lle nad oes unrhyw rwystrau rhag manteisio ar gyfleoedd STEM ar bob lefel o addysg. Wrth ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, bydd yn canolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn STEM gan ganolbwyntio i ddechrau ar fenywod *a'r rhai o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig*'.

Mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus, wrth symud ymlaen, i'r is-grŵp Addysg edrych yn fwy penodol ar faterion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gyda Menywod mewn STEM, o ran addysg a'r cysylltiad â diwydiant ac mae wedi gofyn i swyddogion ystyried y materion hyn a'r cysylltiadau rhwng y darnau hyn o waith.

Bydd diwylliant o anogaeth hefyd yn sbardun hanfodol a bydd yn bwysig hyrwyddo arloeswyr. Cydnabu'r Grŵp fod [Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru](#) yn ddigwyddiad arwyddocaol a chytunodd y Grŵp yr hoffent weld gwobr ychwanegol i hyrwyddo arloeswyr wrth addysgu themâu a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm, gan ddefnyddio dull ysgol gyfan yn ddelfrydol.

Mae'r Grŵp hefyd yn edrych ar sut y gallent ddefnyddio'r gwaith a'r ymchwil a wnaed gan ysgolion arloesi ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon. Bydd hyn hefyd yn helpu'r Grŵp i ystyried sut y gallent ddefnyddio cynlluniau peilot i gasglu a rhannu arfer da.

7. Crynodeb a Chasgliadau

Mae darpariaeth addysgol o ansawdd da yn gofyn am gwricwlwm sy'n adlewyrchu profiadau a chyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ddoe a heddiw. Bydd cwricwla cryf yn tynnu sylw at y materion hyn ac yn mabwysiadu ffyrdd arloesol a chreadigol o ymgorffori a chynnal y pryderon hyn o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'r adolygiad cychwynnol o adnoddau wedi amlygu'r diffyg dull systematig a chydlynol o ddarparu adnoddau dwyieithog o ansawdd da i helpu i integreiddio themâu a chyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae hefyd wedi nodi bylchau sylweddol yn yr adnoddau hygyrch sydd ar gael i gefnogi rhai meysydd o'r cwricwlwm. Ni fydd adnoddau ar eu pen eu hunain yn ddigon i fynd i'r afael â'r diffyg presennol. Bydd llawer yn dibynnu ar allu, ymrwymiad a chymhwysedd y gweithlu addysg i weithredu a chynnal y fenter hon yn ysbryd y cwricwlwm newydd.

Mae'r her o sicrhau bod themâu a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynnwys ar draws y cwricwlwm yn gofyn am fwy na chreu a gwella cynnwys adnoddau addysgu a dysgu yn unig. Mae

hefyd yn gofyn am hwyluso mynediad at adnoddau, newid meddylfryd ac arferion a darparu cymorth drwy enghreifftiau, awgrymiadau ac arweiniad. Yn yr ail gam bydd y Gweithgor yn troi eu sylw at feithrin y gallu hwn a bydd yn adrodd cyn diwedd 2020 ar ofynion datblygiad proffesiynol.

Mae'r argymhellion cychwynnol sy'n dilyn yn ymwneud â'r adolygiad o adnoddau.

Argymhellion

Rydym yn argymhell:

Argymhelliad 1: Datblygu **canllaw adnoddau cychwynnol ar-lein** sy'n rhestru ac yn gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael ynghylch cyfaniadau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ddoe a heddiw ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dylai hyn gynnwys deunyddiau ar Hwb a thu hwnt. Bydd yn cyfeirio at adnoddau gan sefydliadau cenedlaethol, grwpiau addysg a ffynonellau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Dylai'r canllaw gael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Argymhelliad 2: Cynnwys **canllawiau ar sut i lunio deunyddiau** ar Hwb, gydag enghreifftiau a phrosesau, ac adnoddau rhyngddisgyblaethol a fydd yn arwain at ymestyn a datblygu deunyddiau.

Argymhelliad 3: **Dosbarthu a chategoreiddio adnoddau yn well** ar Hwb er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ymarferwyr addysgu ac eraill chwilio a dod o hyd i adnoddau yn ymwneud â themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Argymhelliad 4: Llywodraeth Cymru i weithio gydag awduron adnoddau Saesneg priodol ynghylch Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddarparu **fersiynau Cymraeg** o ansawdd uchel, er mwyn hwyluso mynediad at fwy o adnoddau.

Argymhelliad 5: Datblygu **cyfres newydd o adnoddau dysgu a datblygu proffesiynol dwyieithog** sy'n edrych yn fanwl ar amrywiaeth yng Nghymru ddoe a heddiw. Dylai'r **papurau cefndir** hyn, a fyddai'n gwasanaethu pob Maes Dysgu a Phrofiad, gynnwys: canllaw naratif ar hanes amrywiaeth yng Nghymru; canllaw naratif ar rôl Cymru yn hanes Prydain o wladychu;

bywgraffiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o amrywiol gefndiroedd sy'n edrych ar eu cyfraniadau i fywyd Cymru, Prydain a'r byd; ysgrifau llenyddol gan unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o Gymru; a chanllaw naratif ar hanes hiliaeth a gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

Argymhelliad 6: Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i edrych ar greu adnoddau dwyieithog newydd mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg; Iechyd a Lles; a Mathemateg a Rhifedd. Dylai pob un o'r adnoddau newydd gael eu hategu gan **ddeunyddiau addysgu a dysgu hyblyg o ansawdd uchel** y gellid eu defnyddio gan athrawon fel rhan o'u cwricwlwm ar sawl cyfnod drwy'r continwwm dysgu 3-16. Gellid cynhyrchu'r gyfres hon o adnoddau drwy broses o gyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

Argymhelliad 7: **Estyn i adolygu ac adrodd** ar sut mae ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, a hyrwyddo rhannu arferion da drwy astudiaethau achos ac adroddiadau thematig.

Argymhelliad 8: **Creu categori newydd ar gyfer ysgolion yng Ngwobrau Addysgu Cymru'r Dyfodol** er mwyn hybu cynnwys hanes/cyfraniadau/profiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws pob pwnc mewn ysgolion.

Atodiad A

Rhestr o unigolion a sefydliadau y mae'r Cadeirydd wedi'u cyfarfod hyd yma

- Kay Denyer, Cyfarwyddwr Race Council Cymru
- Chantelle Haughton, Cadeirydd Pwyllgor Hanes Pobl Dduon Cymru a darlithydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
- Dr Anita Shaw, Cadeirydd Is-grŵp Addysg Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (WiSTEM)
- Gaynor Legall, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru
- Fforwm Hil Cymru
- Liz Millman, Sylfaenydd Learning Links International
- Diane Hebb, Cyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru
- Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Ymddiriedolwr ac Is-gadeirydd Race Council Cymru, a Chyd-gadeirydd Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol
- Pwyllgor Rheoli Hanes Pobl Dduon
- Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru
- Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
- Roger Lewis, Llywydd Amgueddfa Cymru
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Atodiad B

Adnoddau i helpu i ddysgu themâu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd i'w gweld ar Hwb

Daw'r holl ddisgrifiadau isod o Hwb.

[Caethwasiaeth a Chymru: Y gorffennol a'r presennol](#)

Mae'r adnodd hwn yn rhoi dimensiwn Gymreig gyfoes i ddysgu am y fasnach gaethweision a chaethwasiaeth fodern. Mae'r adnodd wedi'i dargedu at frig Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, mae'n cefnogi athrawon wrth ddatblygu disgyblion fel dinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd, yn enwedig wrth ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Mae pedwar gweithgaredd, yn cynnwys clipiau ffilm, trafodaeth ddosbarth, gweithgareddau grŵp ac astudiaethau achos.

[Pŵerbwynt mis hanes Pobl Dduon](#)

Mae'r Pŵerbwynt hwn wedi'i anelu at ddysgwyr 5 i 7 oed i helpu i gefnogi'ch addysgu am Fis Hanes Pobl Dduon a'i arwyddocâd. Mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am pam a phryd mae'r mis hwn yn cael ei ddathlu, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bobl Ddu arwyddocaol fel Nelson Mandela, Mary Seacole, Barack Obama, ac eraill. Bydd y dysgwyr yn dechrau cydnabod teimladau a safbwyntiau pobl eraill am ddigwyddiadau neu brofiadau cyfarwydd.

[Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru](#)

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys dolenni at gynnwys Casgliad y Werin Cymru sy'n adrodd straeon pobl a chymunedau o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae'n addas i ddysgwyr Cyfnod Sylfaen (Dylai athrawon Cyfnod Sylfaen wirio'r cynnwys cyn ei rannu gyda'r plant) a Chyfnodau Allweddol 2-4, ac yn cynnwys delweddau, gwrthrychau, straeon, recordiadau a ffilmiau hanes llafar. Gall dysgwyr ei ddefnyddio i archwilio hunaniaeth, cydraddoldeb a gwahaniaethu mewn cyd-destun Cymreig.

[Terfysgoedd Hil 1919](#)

Mae'r pecyn hwn, yn addas ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 i 4, yn cynnwys erthyglau, adroddiadau papur newydd, fideos, a ffynonellau eraill sy'n dogfennu ac yn dadansoddi Terfysgoedd Hil De Cymru yn 1919.

[Terfysgoedd hil Bae Teigr 1919: Mewnfudo, trosedd a chymdeithas Prydain](#)

Adnoddau Hanes, sy'n addas ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 i 4, sy'n edrych ar achosion ac effeithiau mewnfudo o'r Gymanwlad i Gymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r adnoddau'n canolbwyntio ar effaith terfysgoedd hil Bae Teigr 1919.

Astudiaeth achos: Prosiect Pontio'r Cenedlaethau Windrush Abertawe

Adnodd yn addas ar gyfer dysgwyr hanes Cyfnod Allweddol 3 i 4 am y Prosiect Pontio'r Cenedlaethau Windrush Abertawe gan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd (ACC) ar y cyd â disgyblion ysgolion lleol, i ymchwilio i fywydau cenedlaeth Windrush a gyrhaeddodd Gymru o India'r Gorllewin rhwng y 1940au a'r 1970au.

Ymdriniaeth â Hanes y Bobol Dduon

Mae'r adnodd hwn yn darparu amrywiaeth o symbyliadau i athrawon ar gyfer datblygu gwersi erbyn Wythnos Hanes y Bobol Dduon (Nick Blackburn Ysgol Gynradd Griffithstown - Torfaen). [Ddim yn benodol i Gymru.]

Mis Hanes Pobl Dduon

Cyfes o adnoddau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 i 4 sy'n canolbwyntio ar ddod ag ymwybyddiaeth am Fis Hanes Pobl Dduon a ffigurau pwysig yn ei chymdeithas. [Ddim yn benodol i Gymru.]

Ffoaduriaid i Gymru

Adnoddau ar gyfer CA2 & 3 sy'n cynnwys gwybodaeth ac ymarferion rhyngweithiol yn seiliedig ar waith celf gan ffoaduriaid ddaeth i Gymru. Fe'u cynhyrchwyd fel rhan o brosiect Teithwyr Ewropeaidd i Gymru ariennir gan AHRC.

Storïau lloches yng Nghymru

Adnodd i'r ystafell ddosbarth sy'n edrych ar geisio lloches a ffoaduriaid yng Nghymru. Ei nod yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr am y rhai sy'n ceisio lloches a'u hempoethi tuag atyn nhw. Mae'n addas i Gyfnodau Allweddol 3 a 4, mae'n cynnwys cwis PowerPoint, gweithgaredd chwarae rôl ffoaduriaid a phum astudiaeth achos am geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru. Gall ddysgwyr defnyddio'r gweithgareddau ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd.

Pecyn addysg mudo

Mae'r pecyn addysgu yma ar gyfer plant 4 i 14 mlwydd oed yn cynnwys syniadau gwersi i sbarduno trafodaeth am ymfudo. Mae'n canolbwyntio ar hanes ymfudiad y Windrush yn 1948 a dathlu cyfraniad mudwyr o'r Caribî i ffyniant Prydain. [Ddim yn benodol i Gymru.]